**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-594
Ein cyf/Our ref EH/05287/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebiadau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

16 Hydref 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Medi ynghylch deiseb P-04-594 - Cofeb Llywelyn yng Nghilmeri.

Mae'r A483 yn gefnffordd, ac felly byddai'n rhaid inni gytuno ar unrhyw newidiadau arfaethedig i arwyddion ar gyfer ffiniau'r pentref. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych i weld a fyddai'n bosib codi arwydd twristiaid i'r gofeb.

Rydym eisoes yn gweithio gyda Cyngor Sir Powys a Chyngor Cymuned Cilmeri i helpu i gynnal y gofeb, ac rydym wedi'u hysbysu o'r cymorth a'r cyllid posib sydd ar gael drwy Gynllun Grant Mentrau Dinesig (Treftadaeth).

Rydym wedi cydweithio hefyd ag Ymddiriedolaeth Abaty Cwmhir a Chyngor Sir Powys ac wedi darparu cyllid o oddeutu £10,000 i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu, gan godi dau fwrdd dehongli a gorchudd newydd i'r ffynnon ar y safle. Cododd y Cyngor ffens newydd o amgylch y gofeb ac ar hyd y grisiau i lawr i'r ffynnon. Cafodd y gwaith ei gwblhau cyn y seremoni goffâu flynyddol ym mis Rhagfyr 2013.

Y Cyngor sydd i weithredu'r argymhellion mwy hirdymor, sy'n cynnwys cael tir ar gyfer parcio, llwybr newydd, a seddi. Mae'n bosib y bydd rhywfaint o gyllid ar gyfer gwaith llai ar gael drwy'r Cynllun Grant Mentrau Dinesig (Treftadaeth).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*

*Printed on 100% recycled paper*